Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 17 Rhagfyr 2024. Noddir y Bil gan yr Adran Drafnidiaeth.

**2.** Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn datgan fel a ganlyn:

> *"The Bus Services (No. 2) Bill brings forward primary legislative measures intended to support the government's commitment to deliver better buses."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn datgan ei ddiben fel a ganlyn:

> *"Make provision about local and school bus services; and for connected purposes."*[3]

**4.** Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 29 Ebrill 2025, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ebrill. Trafodwyd y Bil mewn ail ddarlleniad ar 2 Mehefin 2025 ac mae wedi'i anfon i Bwyllgor Biliau Cyhoeddus ar gyfer gwaith craffu. Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, disgwyliwyd i'r cyfnod Pwyllgor ddod i ben erbyn 8 Gorffennaf 2025.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod rhaid cael memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**6.** Ar 11 Mawrth 2025, gosododd Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru (yr Ysgrifennydd Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[4]

[1] Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2), fel y'i cyflwynwyd (Bil Tŷ'r Arglwyddi 54) [Saesneg yn unig]
[2] Nodiadau Esboniadol y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2), fel y'i cyflwynwyd [Saesneg yn unig]
[3] Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2), fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1 [Saesneg yn unig]
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2), Mawrth 2025

**7.** Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar y Memorandwm (ein hadroddiad cyntaf) ar 9 Mai 2025.[5]

**8.** Nododd paragraffau 10 i 13 o'n hadroddiad cyntaf y darpariaethau yn y Bil roedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**9.** Nododd paragraffau 14 ac 15 o'n hadroddiad cyntaf safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i nodwyd yn y Memorandwm.

**10.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys pedwar casgliad a thri argymhelliad.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

**11.** Ar 23 Mai 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[6]

**12.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 11 Gorffennaf 2025.[7]

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**13.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn rhestru darpariaethau a oedd yn y Bil wrth ei gyflwyno i Senedd y DU, yn ddarostyngedig i un eithriad (gweler paragraff 18). Mae'r rhifo cymal yn adlewyrchu fersiwn y Bil fel y'i cyflwynwyd o Dŷ'r Arglwyddi.[8]

**14.** Fel y nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y Llywydd yn datgan mai'r dadansoddiad cymhwysedd cychwynnol gan Lywodraeth y DU oedd bod yr holl elfennau o'r Bil yn faterion a gedwir yn ôl ac na fyddai'n ymwneud â'r broses gydsynio. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod swyddogion Llywodraeth Cymru, ers hynny,

[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2), Mai 2025
[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2):, Mai 2025
[7] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2), Mehefin 2025
[8] Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) (Bil 229)

wedi nodi bod mesurau yn y Bil yn gymwys neu'n cael rhywfaint o effaith o ran Cymru.[9] Datganodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol hefyd:

> *"Rwy'n bwriadu cael trafodaethau gyda Gweinidog y DU i benderfynu ar briodoldeb yr effaith. Tra bod y sgyrsiau hynny'n mynd rhagddynt, ni fyddaf yn cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau a allai gael eu datgymhwyso ar gyfer Cymru. Byddaf wrth gwrs yn cadarnhau gyda'r Senedd ganlyniad y trafodaethau hynny ac unrhyw welliannau a wnaed, gan gynnwys drwy'r broses cydsyniad deddfwriaethol lle bo'n berthnasol. Er gwaethaf y trafodaethau hyn rydym yn disgwyl i ddarpariaeth gyfyngedig aros yn y Bil hwn a fydd yn gofyn am gydsyniad y Senedd, a byddaf yn cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y sail honno. Disgwylir i hyn fod yn effaith achlysurol o ganlyniad i natur gwasanaethau bysiau trawsffiniol ac nid yw'n gyfystyr â darpariaeth sylweddol i Gymru."*[10]

**15.** Ymatebodd y Llywydd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar 14 Mawrth 2025, gan fynegi pryder am benderfyniad yr Ysgrifennydd Cabinet i beidio â chynnwys darpariaethau mewn memorandwm cydsyniad deddfwriaethol y gellir eu digymhwyso'n ddiweddarach o ran Cymru. Nododd y Llywydd fod y Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o'r Llywodraeth osod memorandwm pan fydd unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU yn gwneud "darpariaeth berthnasol" wrth gael ei gyflwyno i'r Tŷ cyntaf. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau y gellir eu datgymhwyso'n ddiweddarach o ran Cymru yn ystod taith y Bil drwy Senedd y DU.[11]

**16.** Ar 25 Mawrth 2025, ymrwymodd yr Ysgrifennydd Cabinet i osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol ar y cymalau sy'n weddill sy'n gwneud darpariaeth o ran Cymru, na chawsant eu cynnwys yn y Memorandwm gwreiddiol.[12]

---

[9] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru at y Llywydd, 5 Mawrth 2025
[10] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru at y Llywydd, 5 Mawrth 2025
[11] Llythyr oddi wrth y Llywydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, 14 Mawrth 2025
[12] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru at y Llywydd, 25 Mawrth 2025 [Saesneg yn unig]

**17.** Ym mharagraffau 11 i 13 o Femorandwm Rhif 2 mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan fel a ganlyn:

> *“Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn yn ymwneud â darpariaethau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Dylai’r darpariaethau a restrir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gael eu darllen ochr yn ochr â’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a osodwyd ar 11 Mawrth 2025.*
>
> *Mae fy swyddogion yn parhau i gael trafodaethau gyda chydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth ynghylch a ddylid gwneud gwelliannau mewn perthynas â’r darpariaethau hyn, eu cymhwysiad yng Nghymru a’u heffaith bosibl ar ddarpariaeth Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn y dyfodol, sy’n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Senedd.*
>
> *Yn y cyfamser, yr wyf yn gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn mewn perthynas â'r darpariaethau hynny er mwyn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 29.”*

**18.** Ym mharagraffau 14 a 15 o Femorandwm Rhif 2, mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi manylion y cymalau yn y Bil (fel y’i cyflwynwyd) na chawsant eu cynnwys yn y Memorandwm ac y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Dyma’r cymalau:

- cymal 22(6)(b)(i) a (ii) – Cwmnïau bysiau llywodraeth leol (cymal 15 fel y’i cyflwynwyd) (ychwanegwyd is-baragraff (b)(ii) at y Bil drwy welliant y cytunwyd arno yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi[13]),
- cymal 33 – Dyletswydd ddiogelu: gyrwyr gwasanaethau ysgol (cymal 26 fel y’i cyflwynwyd),
- cymal 34 – Hyfforddiant am droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (cymal 27 fel y’i cyflwynwyd),

[13] Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) [Tŷ’r Arglwyddi], Rhestr o'r holl welliannau yn dilyn yr Adroddiad, Cyflwynwyd hyd at 19 Mawrth 2025 ac yn cynnwys y dyddiad hwnnw [Saesneg yn unig]

- cymalau 35 a 36 – Hyfforddiant am gymorth i bobl anabl ac ymwybyddiaeth o anabledd (cymalau 28 a 29 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd).

**19.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol:

> *"Rwy'n credu bod y cymalau hyn yn sbarduno'r broses gydsynio deddfwriaethol a nodir yn Rheol Sefydlog 29 am eu bod yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig (sef darparu gwasanaethau bws lleol)."*[14]

**20.** O ran barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan ym Memorandwm Rhif 2 bod Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau hyn yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl ac nad ydynt felly yn sbarduno'r broses Cydsyniad Deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd Cabinet o'r farn bod y "ddadl bod y cymalau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig yn un gryfach a bod felly angen LCM."[15]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil

**21.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil a'r cymalau a restrir ym Memorandwm Rhif 2 ym mharagraffau 18 i 21. Mae'n datgan y canlynol:

> *"Cymal 22(6)(b) Pwrpas y newid hwn yw egluro nad yw Deddf Trafnidiaeth 1985 yn cyfyngu'n ddaearyddol ble gall cwmnïau bysiau trefol presennol, a ffurfiwyd o dan Ran IV o Ddeddf Trafnidiaeth 1985, weithredu gwasanaethau. Roedd rhai o'r cwmnïau hyn wedi dehongli adran 73(3)(a) fel ei bod yn cyfyngu ar gwmpas daearyddol eu gweithrediadau, o'i darllen gyda darpariaethau eraill yn Neddf 1985.*
>
> *Cymal 33 – Yn fy marn i, mae'r ddeddfwriaeth bresennol a Teithio gan Ddysgwyr : Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol o'u darllen gyda'i gilydd yn cyflawni canlyniad tebyg i'r darpariaethau yng nghymal 33.*

[14] Memorandwm Rhif 2, paragraff 15
[15] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 16 a 17

*Cymalau 34-36 - Mae'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) a gyflwynwyd yn ddiweddar yn darparu ar gyfer contractau a thrwyddedau gwasanaethau bysiau lleol. Byddan nhw'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod gofynion hyfforddi a diogelwch ar weithredwyr gwasanaethau bysiau lleol.*

*Yng ngoleuni'r uchod, hoffwn drafod y darpariaethau hyn ymhellach â Llywodraeth y DU, cyn rhannu fy asesiad a yw'r darpariaethau hyn yn llesol i Gymru."*

**22.** Dyma gasgliad yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"Er fy mod yn croesawu cysylltiadau Llywodraeth y DU â ni hyd yma o ran cymhwyso'r darpariaethau yn y Bil hwn, bydd angen rhagor o drafod cyn y gallaf gadarnhau i'r Senedd bod y ddarpariaeth yn addas i Gymru. Byddafyn parhau i fonitro datblygiadau'r Bil ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd fel y bo'n briodol."*[16]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**23.** Gwnaethom ystyried Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 23 Mehefin 2025.[17]

**24.** Gwnaethom drafod ein hadroddiad a chytuno arno yn ystod ein cyfarfod ar 30 Mehefin 2025.[18]

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**25.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r cymalau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodwyd ym Memorandwm Rhif 2.

**26.** Nodwn hefyd safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 22(6)(b)(i) a chymalau 33 i 36, fel y nodwyd ym Memorandwm Rhif 2 yn unol â Rheol Sefydlog 29. Nid ydym yn cytuno ag

[16] Memorandwm Rhif 2, paragraff 23
[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025
[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025

asesiad Llywodraeth Cymru y dylid gofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 22(6)(b)(ii).

**27.** Mae cymal 22(6)(b)(ii) yn datgymhwyso adran 73(3)(b) o *Ddeddf Trafnidiaeth 1985* (Deddf 1985) mewn perthynas ag arian a fenthycir at ddiben neu mewn cysylltiad â darparu "gwasanaethau lleol" gan gwmni trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hyn yn dileu'r cyfyngiad ar gwmnïau bysiau awdurdodau lleol presennol i gael mynediad at fenthyciadau preifat, pan gaiff yr arian ei fenthyca at ddibenion neu mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau bysiau lleol. Rydym yn deall bod dileu'r cyfyngiad hwn yn gymwys mewn perthynas â chwmnïau bysiau awdurdodau lleol presennol yn Lloegr yn unig, oherwydd yr adran 73(5B) newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf 1985 gan gymal 22(6)(b)(ii) o'r Bil. Felly, nid yw'n gymwys i gwmnïau bysiau awdurdodau lleol yng Nghymru. Fel y cyfryw, nid ydym yn glir sut y mae cymal 22(6)(b)(ii) yn gwneud darpariaeth mewn ffordd sy'n sbarduno Rheol Sefydlog 29.

**28.** Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom ddod i'r casgliad bod cymal 22 (bellach cymal 26), sy'n mewnosod adrannau newydd yn *Neddf Ystadegau Masnach 1947*, yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ac, fel y cyfryw, dylid gofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwnnw.[19] Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid yw'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ymateb i'n hadroddiad cyntaf, a nodwn nad yw Memorandwm Rhif 2 yn ymdrin â chymal 26 (fel y'i rhifwyd ym Mil 229).

**Casgliad 2.** Rydym yn parhau i fod o'r farn y dylid gofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 26 o'r Bil (cymal 22 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU).

**29.** At hynny, nodwn fod Llywodraeth y DU o'r farn y dylid gofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 24(4) (gwybodaeth a ddarperrir am gofrestru gwasanaethau lleol).[20] Mae'r cymal hwn yn caniatáu i gomisiynydd traffig ddarparu gwybodaeth a geir yn rhinwedd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol. Nid yw'r Ysgrifennydd Cabinet yn gofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 24(4).

**30.** Rydym yn deall bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau o dan adrannau 6 a 6I o Ddeddf 1985 o ran Cymru. Mae'r pwerau hyn yn ymwneud â chofrestru "gwasanaethau lleol". Er ein bod yn cydnabod nad yw cymal 24(4) yn

[19] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2), casgliad 2
[20] Nodiadau Esboniadol y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) (Bil 229), paragraff 446 [Saesneg yn unig]

effeithio ar y pwerau gwneud rheoliadau hyn yn uniongyrchol, mae'r ddarpariaeth yn pennu'r hyn y caiff comisiynydd traffig ei wneud gyda gwybodaeth a geir yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau hynny. Rydym hefyd yn cydnabod bod comisiynwyr traffig yn awdurdod a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, o ystyried bod cymal 24(4) yn ymwneud â phŵer gweithredol Gweinidogion Cymru, byddem yn croesawu esboniad gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch a yw'n credu bod cymal 24(4) yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, a pham na ofynnir am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 24(4).

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio pam na ofynnir am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 24(4) o'r Bil.

**31.** Yn olaf, nodwn fod gan yr Ysgrifennydd Cabinet bryderon ynghylch cymalau 33 i 36 o'r Bil a sut y maent yn rhyngweithio â'r ddogfen Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol, a gyhoeddwyd o dan *Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008*, a'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), a gyflwynwyd i'r Senedd yn ddiweddar, a sut y gallant effeithio arnynt. Nodwn ymhellach, yn sgil y pryderon hyn, fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu "[t]rafod y darpariaethau hyn ymhellach â Llywodraeth y DU, cyn rhannu *[sic]* asesiad a yw'r darpariaethau hyn yn llesol i Gymru".

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad i'r Senedd cyn gynted â phosibl ar y trafodaethau y mae wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch cymalau 33 i 36.

## Dull Llywodraeth Cymru o ran y Bil

**32.** Fel y nodwn ym Mhennod 1 o'n hadroddiad, mae Memorandwm Rhif 2 (yn bennaf) yn ymwneud â darpariaethau a oedd yn bresennol yn y Bil wrth ei gyflwyno i Senedd y DU ym mis Rhagfyr 2024. Mae hyn yn golygu y bu dros bum mis o oedi rhwng cyflwyno'r Bil a hysbysu'r darpariaethau hyn mewn memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd.

**Casgliad 3.** Yn ei lythyr at y Llywydd ar 25 Mawrth 2025, ymrwymodd yr Ysgrifennydd Cabinet i osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol yn rhestru'r cymalau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth o ran Cymru na chawsant eu cynnwys yn y Memorandwm gwreiddiol. Nid ydym yn glir pam na osodwyd Memorandwm Rhif 2 tan 23 Mai 2025. Mae'r dull hwn o ran y broses cydsyniad deddfwriaethol yn amharchus i'r Senedd ac yn sefyllfa ddigroeso na ddylid ei hailadrodd.

## Materion sy'n parhau i fod yn destun pryder

**33.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys tri argymhelliad yn ymwneud â dull Llywodraeth Cymru o ran y Bil a'r broses cydsyniad deddfwriaethol (argymhellion 1 a 2), a rhyngweithiad y Bil â Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) Llywodraeth Cymru (argymhelliad 3). Rydym yn aros am ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i'n hadroddiad cyntaf.